Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Dlodi ac Amddifadedd yn y Gymru Wledig.

12 Medi 2008

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod allan isod ei ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad:

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda'r sector gofal plant i ddatblygu hyfforddiant a llwybrau gyrfa strwythuredig i annog recriwtio a chadw staff yn yr alwedigaeth, gan ystyried yn enwedig anghenion o ran y Gymraeg.

Ymateb : Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llawn gefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn, ac y mae eisoes wedi mynd i'r afael â'r materion hyn yn ei strategaeth gofal plant "Ar Gyfer Plant y Mae Gofal Plant". Mae'r strategaeth honno yn cydnabod bod gweithlu o safon uchel yn sail dda er mwyn cael gofal plant o safon uchel ac i'r perwyl hwn y mae'n addunedu i sicrhau bod rhan o gyllid Cychwyn Cadarn ar gael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu ynghyd â'r ymgyrch "Chwarae Dysgu Tyfu" er mwyn recriwtio gweithlu.

Mae "Ar Gyfer Plant y Mae Gofal Plant " yn cynnwys ymrwymiad i greu Cynllun Datblygu Gweithlu ar gyfer Cymru, a gaiff ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy gydweithio â'r Cyngor Sector Sgiliau newydd ar gyfer Gofal a Datblygu. I'r perwyl hwn, mae Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal a Datblygu) wedi penodi swyddog penodol er mwyn ystyried anghenion datblygu y gweithlu gofal plant yng Nghymru.

O ganlyniad, yn ei rôl fel Cyngor Sgiliau Sector, mae Cyngor Gofal Cymru wedi sefydlu Rhwydwaith Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar, gyda chynrychiolwyr o'r gwahanol sectorau ar lefel strategol, a'i nod yw cefnogi a bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu gweithlu plant effeithiol yng Nghymru sy'n meddu ar y sgiliau priodol. Gwaith y Rhwydwaith fydd darparu Cynllun Datblygu'r Gweithlu Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a fydd yn sicrhau bod gan y gweithlu y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn cydweithio'n effeithiol i wella'r canlyniadau ar gyfer plant ac er mwyn sicrhau bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn cael eu recriwtio a'u cadw ym mhob sector o'r maes gweithlu plant. Mae'r cynllun yn cynnwys datblygu craidd cyffredin o wybodaeth, sgiliau a fframwaith cymwysterau ar gyfer y sector, ynghyd â fframwaith gyrfa a fydd yn caniatáu i weithwyr symud ar draws yr holl ystod o swyddi ym maes gweithio gyda phlant ym mhob sector. Rydym yn cydnabod bod angen canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu sgiliau Cymraeg yn y sector hwn.

Cytunodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun ar ran Cyngor Gofal Cymru ac i lunio ymateb swyddogol yn seiliedig ar y canlyniad. Bydd y canlyniad hwn yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu strategaeth gweithredu i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a nodwyd yn y cynllun. Cyngor Gofal Cymru fydd yn bwrw ymlaen â'r strategaeth. Gwneir y gwaith hwn gan gydnabod y rôl hanfodol sydd gan y gweithlu penodol hwn wrth ddarparu cynlluniau polisi allweddol megis Cychwyn Cadarn a'r Cyfnod Sylfaen. Gan gofio hyn, mae rhan o gyllid Cychwyn Cadarn wedi ei neilltuo ar gyfer datblygu'r gweithlu.

Cynlluniwyd yr ymgyrch recriwtio 12 mis 'Chwarae Dysgu Tyfu" i helpu a chefnogi'r sector gyfan a thynnu sylw'r cyhoedd a gweithwyr posib at y cyfleoedd ar draws ystod eang o swyddi ynghyd â'r buddiannau o weithio yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, yn ogystal â hyrwyddo'r pwysigrwydd o godi isafswm lefel y sgiliau i gymhwyster NVQ lefel 3. Y nod ydoedd sicrhau bod digon o ddechreuwyr newydd yn y gweithlu er mwyn sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen a Chychwyn Cadarn yn cael eu cyflwyno'n effeithiol.

Daeth yr ymgyrch "Chwarae Tyfu Dysgu" ar gyfer recriwtio gweithlu newydd i ben ym mis Mawrth 2008, a gwnaeth yr ymgyrch honno gynnwys hysbysebu ar y teledu, yn y sinema, gosod taflenni mewn cylchgronau a hysbysebu ar y tu allan i flychau ffôn. Yr oedd hefyd astudiaethau achos ac erthyglau wedi'u cynnwys yn y wasg leol ledled Cymru. Yr oeddent oll yn ddwyieithog. Mae gwerthusiad llawn o'r ymgyrch wedi ei chwblhau, ac yr oedd yn cynnwys adborth oddi wrth y rhanddeiliaid a darparwyr hyfforddiant.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Mae'r gwaith ar y gweill o fewn cyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y materion sy'n wynebu ardaloedd gwledig, a rôl gofal plant mewn datblygu'r economi gwledig wrth symud ymlaen ag ymrwymiad *Cymru'n Un* i gynyddu darpariaeth gofal plant fforddiadwy yn yr ardaloedd mwyaf anghenus.

Ymateb : Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi cyfeiriad yr argymhelliad hwn yn llwyr, ac mae eisoes wedi rhoi sylw i'r mater hwn ei yn strategaeth gofal plant "Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant". Cafwyd cydnabyddiaeth ynddi bod gofal plant i rieni mewn ardaloedd gwledig yn debygol o fod yn llai hygyrch.

Cydnabyddir bod gwarchod plant a darpariaeth symudol yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hyn. Mae'n bosib y bydd ysgolion lleol hefyd yn rhan o'r ateb i'r broblem, gan ddefnyddio lle sydd dros ben i ddarparu neu gynnal gofal plant a chlybiau y tu allan i'r ysgol. Mae rhan o gyllideb yr Ysgolion Bro i gael ei defnyddio i ddatblygu clybiau gofal plant a chynlluniau

chwarae yn ystod y gwyliau. Bydd yr asesiadau digonolrwydd lleol, sy'n ofynnol dan Ddeddf Gofal Plant 2006 yn dylanwadu ar yr oedrannau a gaiff eu gwasanaethu a'r lleoliadau.

Mae Deddf Plant 2006 yn symbyliad i strategaeth gofal plant y Llywodraeth "Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant" ac, o fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd yn rhoi dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i sicrhau fod gofal plant digonol o fewn eu hardaloedd ac i ymgymryd ag asesiadau digonolrwydd lleol rheolaidd. Mae'r dyletswyddau hyn yn fwriadol benagored, er mwyn caniatáu i Awdurdodau Lleol roi ystyriaeth i anghenion eu hardaloedd lleol wrth ymgymryd â'r gwaith, beth bynnag am yr atebion a gaiff eu sefydlu. Bydd yn rhaid i awdurdodau mewn ardaloedd gwledig roi ystyriaeth i gyfansoddiad a thrwch y boblogaeth a'r anghenion penodol ar gyfer gofal plant yn eu hardaloedd er mwyn cyflawni eu dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddigonol ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Mater i'r Awdurdodau Lleol fydd cymryd trosolwg strategol ar sut i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i sicrhau gwasanaeth gofal plant digonol.

Mae "Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant" hefyd yn dwyn sylw at nifer o fentrau gan Lywodraeth y Cynulliad i hyrwyddo gofal plant, gan gynnwys prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop 'Genesis Cymru' a menter Cychwyn Cadarn. Mae'r naill fenter a'r llall yn enghraifft o waith partneriaeth ar y lefel ehangaf ac uchaf.

Mae prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop 'Genesis Cymru' yn mynd i mewn i'w bedwaredd flwyddyn, tan ddiwedd 2008, ac mae'n cynnig gofal plant ychwanegol, sy'n fforddiadwy ac yn hygyrch, gan ryddhau rhieni i ymgymryd â hyfforddiant a chyflogaeth. Mae partneriaid Awdurdodau Lleol wedi ceisio teilwra eu darpariaeth Genesis Cymru i'r cyd-destun lleol, yn enwedig o ran llenwi bylchau yn y ddarpariaeth ac ymdrin â'r problemau a wynebir gan eu grwpiau targed potensial. Mae rhai prosiectau lleol yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau a phroblemau penodol rhag dychwelyd i'r farchnad lafur. Mewn ardaloedd gwledig, mae rhoi sylw i agweddau a mynediad at gludiant wedi dod i'r amlwg fel thema allweddol. Nod cyffredinol prosiectau Genesis Cymru yw gwneud i ffwrdd â'r rhwystrau rhag dod o hyd i waith ac, o ganlyniad, gwella gweithgarwch economaidd a lleihau tlodi plant mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru.

Targedir y rhaglen 'Cychwyn Cadarn' at y grŵp oedran 0-3 o fewn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan gydnabod y dystiolaeth fod plant mewn ardaloedd o amddifadedd lluosog yn dioddef effeithiau ychwanegol o anfantais ac y gall y gefnogaeth yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn gael dylanwad sylweddol ar ganlyniadau cadarnhaol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Prif elfennau'r rhaglen yw mynediad at ymwelwyr iechyd â llwythi isel o achosion, cynlluniau iaith a chwarae, cwrs magu plant ac, wrth gwrs, gofal plant o ansawdd da yn rhad ac am ddim i blant dwyflwydd oed.

Darperir Cychwyn Cadarn mewn ardaloedd gwledig mewn nifer o siroedd. Er enghraifft, mae Ynys Môn, Ceredigion, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin yn darparu gwasanaethau Cychwyn Cadarn, yn rhannol neu'n llawn, wedi'u haddasu i gyfateb ag anghenion eu dalgylchoedd Cychwyn Cadarn gwledig. Mae pob un ohonynt yn adrodd am sialensiau tebyg o ran sicrhau niferoedd digon mawr i gynnal canolfannau gofal plant, canfod safleoedd addas i ddarparu gofal plant, anawsterau wrth recriwtio a chadw staff gofal plant ac ymwelwyr iechyd, yn ogystal â mynediad at gludiant i fynd â'r rhieni a'r plant i'r lleoliadau gofal plant a'r dosbarthiadau magu plant ac iaith a chwarae. Bu'r Awdurdodau Lleol yn ddyfeisgar, fodd bynnag, wrth fynd i'r afael â'r sialensiau hyn. Er enghraifft, defnyddiwyd yr arian cyfalaf sydd ar gael i brynu bws Cychwyn Cadarn i gynyddu hygyrchedd ac, o bosib, i adeiladau lleoliadau newydd yn yr ardaloedd hyn.

Goblygiadau Ariannol
Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu i lawr o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen strategaeth economaidd gadarn yng Nghymru, sy'n ceisio datblygu economi fwy amrywiol yn y Gymru wledig. Mae'r Pwyllgor felly'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu adnoddau wedi'u targedu, gan gynnwys cefnogaeth i fusnesau, er mwyn creu economi gwledig fwy amrywiol y tu hwnt i'r sail gyfredol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (AETh) eisoes yn mynd ati i wneud newidiadau radical i'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi busnesau yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2008, cyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru y Gronfa Fuddsoddi Sengl newydd. Mae'r gronfa newydd yn dwyn yr holl grantiau busnes at ei gilydd o dan yr un to fel rhan o becyn integredig newydd o gymorth ariannol ac arbenigol.

Ein nod hefyd yw sefydlu hyd at 200 o reolwyr cysylltiadau cwsmeriaid Llywodraeth y Cynulliad a fydd yn gweithredu fel yr unig bwyntiau cyswllt i fusnesau sy'n chwilio am gymorth. Mae hyn yn greiddiol i'n nod o ddarparu dull o gefnogi busnesau sy'n canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer.

Dylai'r economi gwledig elwa hefyd o'r gronfa fuddsoddi o £150m ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint yr ydym yn ceisio'u sefydlu dan fenter Cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer Busnesau Micro i Ganolig (‘JEREMIE') o eiddo Banc Buddsoddi Ewrop.

Mae polisïau eraill nad ydynt dan arweiniad AETh ar waith megis y gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Mae'r cynllun hwn wedi helpu dros 7,000 o ffermwyr ers ei lansio a chafodd ei ymestyn i gynnwys gwell ystod o

wasanaethau ‘gwerth ychwanegol’. Un gwahaniaeth yw’r pwyslais a roddir ar ddiwallu anghenion Cymru gyfan – gan gynnwys busnesau mewn ardaloedd gwledig.

Trwy Gwerth Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda mudiadau’r sector cyhoeddus ar hyd a lled y wlad i wella arferion caffael a dod â chyfleoedd caffael cyhoeddus o fewn gwell cyrraedd i gwmnïau, yn enwedig Mentrau Bach a Chanolig eu maint a, thrwy wneud hynny, yn cynyddu’r potensial i gyflawni budd economaidd yn sgil gwariant sector cyhoeddus, a darparu gwell gwerth am arian.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu i lawr o gyllidebau’r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 4: Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o’r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, yn cydnabod pwysigrwydd y sector gwirfoddol, yn enwedig Cyngor ar Bopeth, ac awdurdodau lleol wrth annog pobl i hawlio budd-daliadau, ac yn sicrhau bod y ddau sector yn cael digon o adnoddau i barhau i ddarparu’r gwasanaethau hanfodol hyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae cynyddu incwm yn un o nodweddion Strategaeth Cynhwysiant Ariannol arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy’n cynnwys cynyddu nifer y budd-daliadau a gaiff eu hawlio fel un o’i themâu allweddol. Rhoddir sylw i’r modd y gallwn helpu pobl i elwa i’r eithaf drwy hawlio’r budd-daliadau y maent yn gymwys i’w derbyn. Bydd hyn yn golygu dull integredig i sicrhau bob pawb yn hawlio’r budd-daliadau y maent yn gymwys i’w derbyn – ac mae hynny’n gofyn am systemau cyfeirio cadarn a gwir ewyllys i newid y prosesau presennol a gwella cysylltiadau rhwng asiantaethau.

Bydd y trydydd sector yn hanfodol i’r broses hon, yn enwedig o ystyried ei rôl wrth ddarparu gwasanaethau cynghori. Yr ydym yn gweithio gydag amrediad o bartneriaid, ac mae darparwyr y trydydd sector yn greiddiol yn hyn o beth gan fod rhai ohonynt – megis undebau credyd a Cyngor ar Bopeth - eisoes yn chwarae rhan bwysig o ran darparu ystod o gynnyrch credyd fforddiadwy a chyngor. Mae Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Cymru wedi’i sefydlu hefyd i oruchwylio’r gwaith o ddatblygu a gweithredu’r Strategaeth, ac mae hanner yr aelodau, a ddetholwyd trwy broses benodiadau cyhoeddus, yn cynrychioli’r trydydd sector.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn gweithio gydag awdurdodau lleol a’r trydydd sector gan ddarparu £1miliwn y flwyddyn am y tair blynedd 2008-2011 i gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i gynyddu’r nifer sy’n

hawlio Budd-dâl y Dreth Gyngor a Budd-dâl Tai. Mae grantiau eisoes wedi'u talu i awdurdodau lleol ar gyfer 2008-09 ac maent yn cael eu hannog i weithio gyda mudiadau perthnasol yn eu hardaloedd lleol, megis Cyngor ar Bopeth, *Age Concern* a *Help the Aged*, i sicrhau fod y neges yn cyrraedd cynifer ag y bo modd o bobl ac y cânt eu helpu i hawlio'r budd-daliadau sydd ar gael iddynt.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi menter *Gwell Cyngor, Gwell Iechyd* Cyngor ar Bopeth Cymru gyda £715k yn cael ei ryddhau ym mlwyddyn ariannol 2008-09. Mae gwasanaethau cyngor ar dai yn derbyn nawdd o dros £710k i Shelter Cymru gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a darpariaeth gan Lywodraeth y Cynulliad o oddeutu £760k.

Mae *Cymru'n Un* yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i "sefydlogi a gweithredu'n llawn y strategaeth sy'n ymwneud â helpu a chydgysylltu gwasanaethau cyngor yng Nghymru, fel bod cyngor cynhwysfawr ar fudd-daliadau ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol." Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfriethiol, y naill a'r llall, yn ymroddedig i'r gwaith o gyd-gomisiynu, ariannu a monitro gwasanaethau cynghori er mwyn cynyddu effaith yr adnoddau sydd ar gael a lleihau dyblygu gan fod y cyllid hyd yma wedi bod yn anghyfartal. Yn unol â *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru,* mae'r ddarpariaeth gynghori ledled Cymru'n cael ei hadolygu. Mae'r gwaith i ddynodi bylchau yn y ddarpariaeth gynghori wedi dechrau ac er na fydd trafodaeth ar egwyddorion *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru,* byddir yn ceisio barn y trydydd sector ar batrwm cyfredol y ddarpariaeth. Rhoddir ystyriaeth i hyn wrth gyllido darparwyr cyngor at y dyfodol.

O safbwynt natur wledig, bydd Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru yn ymestyn dros Gymru gyfan, ond cydnabyddir y bydd angen dadgyfuno angen yn ôl amodau/etholaethau penodol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i gynnwys anghenion y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth.

Goblygiadau Ariannol - Telir y costau mewn perthynas â Budd-dâl y Dreth Gyngor a'r grantiau hawlio Budd-daliadau Tai o gyllidebau rhaglenni presennol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cefnogi menter *Gwell Cyngor, Gwell Iechyd* Cyngor ar Bopeth Cymru ac mae gwasanaethau cyngor ar dai ar hyn o bryd yn derbyn arian i Shelter Cymru gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a darpariaeth Llywodraeth y Cynulliad.

Mae Cymru wedi elwa o gyllid ar gyfer cynghori wyneb-yn-wyneb ynghylch dyledion gan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio: rhoddwyd £3.15 miliwn i Gyngor ar Bopeth Cymru dros flynyddoedd ariannol 2005-08 i ariannu gweithwyr cynghori ynghylch dyled. Mae'r penodiadau i barhau hyd at 2011.

Ystyrir unrhyw fuddsoddiad ychwanegol yng nghyd-destun *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru* a *Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru*.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynllun cardiau bws di-dâl i bobl hŷn, ond mae'n pryderu nad yw pobl hŷn mewn ardaloedd gwledig yn gallu manteisio'n ddigonol ar y cynllun hwn. Mae'r Pwyllgor felly'n annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ehangu'r cynllun cardiau bws di-dâl i ganiatáu i bobl hŷn deithio'n rhatach ar ffurfiau eraill ar drafnidiaeth, fel y trên a thrafnidiaeth gymunedol, lle nad oes darpariaeth ddigonol o fysiau ar gael.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Ar y 12fed o Fai, cyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru y penderfyniad i ymestyn y cynllun peilot ar gyfer teithio'n rhatach ar y trên i reilffordd Arfordir Cambria yn ystod y gaeaf, a chydol y flwyddyn ar adran Cymru o reilffordd Wrecsam - Bidston. Bydd hefyd yn parhau ar reilffordd Dyffryn Conwy am flwyddyn arall, ac ar reilffordd Calon Cymru, gyda theithio di-dâl rhwng Hydref ac Ebrill yn unig. Mae'r cynllun peilot yn cael ei gynnal am gyfnod prawf mewn ardaloedd diffiniedig. Cynhelir gwerthusiad llawn o'r peilot. Ni wneir penderfyniad i ymestyn nac i barhau'r cynllun nes ceir canlyniad y gwerthusiad a ddisgwylir yn ystod gwanwyn 2009.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ariannu gweithredwyr cludiant cymunedol i brofi ystod o gynlluniau fel rhan o'n cynlluniau i alluogi pobl ag anableddau difrifol i deithio'n rhatach ar gludiant cymunedol. Yr ydym, ar hyn o bryd, yn bwrw ymlaen i gynnal gwerthusiadau o'r cynlluniau peilot ar gyfer teithio'n rhatach i'r rhai ag anableddau difrifol a'r rhai rhwng 16 ac 18 oed. Bydd angen i'r Llywodraeth ystyried canlyniadau'r gwerthusiadau hyn yn ofalus iawn cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch ymestyn y cynlluniau ledled Cymru.

Goblygiadau Ariannol

Bydd gwerthusiad o'r cynlluniau peilot yn cynnwys amcangyfrif o'r gost o ymestyn y cynlluniau ar draws Cymru.

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor hefyd yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i annog a chefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau cludiant cymunedol sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae ein rhaglen Cymru'n Un yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi buddsoddiad mwy mewn cludiant cymunedol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol i awdurdodau lleol i'w helpu i gynyddu nifer ac amrediad y bysiau sy'n derbyn cymhorthdal. Dylai o leiaf 10% o ddyraniadau'r Grant hwn gael ei wario ar gynlluniau cludiant cymunedol. Yr ydym hefyd yn darparu cyllid i weithredwyr cludiant cymunedol i brofi amrediad o gynlluniau fel rhan o'n peilot ar gyfer darparu cludiant rhatach i bobl ag anableddau difrifol ar gludiant cyhoeddus.

Yn fwy cyffredinol, yr ydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ynghylch cynlluniau i lacio'r drefn reoleiddio ar gyfer hawlenni Adran 19 a 22 a fydd yn caniatáu i weithredwyr cludiant cymunedol chwarae rhan fwy wrth ddarparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu arian craidd ar gyfer Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru sy'n cynrychioli'r sector cludiant cymunedol i'w helpu i weithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i ddatblygu cludiant cymunedol yng Nghymru.

Goblygiadau ariannol
Dim. Bydd cyllid cludiant cymunedol at y dyfodol i'w ganfod o fewn Prif Grŵp Gwariant AETh.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr anawsterau o ran cludiant y mae pobl ifanc yn eu hwynebu mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn asesu'r potensial ar gyfer cyflwyno cludiant yn rhad ac am ddim, fesul cam, i blant a phobl ifanc ledled Cymru, fel y cynllun peilot sydd eisoes wedi'i roi ar waith yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Yr ydym ar hyn o bryd yn bwrw ymlaen i gynnal gwerthusiadau o'r cynlluniau peilot ar gyfer teithio'n rhatach i bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed a phobl ag anableddau difrifol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys dynodi costau posibl pe câi'r cynllun ei ymestyn i amrediad ehangach o oedrannau. Bydd yn rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried canlyniadau'r gwerthusiadau hyn yn ofalus cyn gwneud penderfyniad am ymestyn y cynlluniau ar draws Cymru.

Goblygiadau ariannol
Pan gaiff ei gynhyrchu yn ddiweddarach eleni, bydd y gwerthusiad o'r cynlluniau peilot yn cynnwys amcangyfrif o'r gost bosibl o ymestyn y cynlluniau peilot hyn yn barhaol ledled Cymru.

Argymhelliad 8: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu canllawiau cynllunio cryfach i alluogi datblygu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig, ac i gynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau bod mwy o dir ar gael ar gyfer tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori, ar hyn o bryd, ynghylch nifer o bolisïau cynllunio arfaethedig sy'n adeiladu ar ein polisïau presennol i ddarparu rhagor o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Mae'r rhain yn cynnwys ymestyn y cysyniad o anheddau hanfodol i weithwyr yng nghefn gwlad mewn amrywiol fentrau, nid ffermio a choedwigaeth yn unig, a chaniatáu annedd ychwanegol ymysg adeiladau'r fferm i gynorthwyo gydag olyniaeth ar y fferm neu ar gyfer gweithiwr fferm rhan-amser. Caiff yr anheddau hyn eu diffinio fel tai fforddiadwy fel ag y'u gosodir allan yn TAN 2 "Cynllunio a Thai Fforddiadwy". Hefyd, bydd yn rhaid i dai ar y farchnad yn gyffredinol ddarparu adnoddau a fydd yn helpu i gyflawni tai fforddiadwy. Dylid cyfyngu lleiniau adeiladu sydd oddi mewn i glystyrau bach o dai, neu nesaf atynt, yng nghefn gwlad, i bobl sydd angen tai fforddiadwy ac sy'n gweithio yn y gymuned leol. Nodir y manylion yn y papur ymgynghorol "Newidiadau i bolisi cynllunio i gefnogi datblygiad cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig: diwallu anghenion tai" a gyhoeddwyd ar 7 Gorffennaf 2008 ac i dderbyn sylwadau erbyn 10 Hydref 2008.

Ymysg mentrau perthnasol eraill, sefydlir y Cynllun Datblygu Tai Gwledig a fydd yn darparu cyllid i ehangu'r rhwydwaith o Swyddogion Galluogi Tai Gwledig ledled Cymru. Mae'r Swyddogion Galluogi hyn yn gweithio mewn cymunedau lleol i hwyluso'r broses o ryddhau safleoedd eithriedig gwledig fel y gellir adeiladu tai fforddiadwy i bobl leol arnynt. Bydd £450,000 ar gael ar gyfer Datblygu Tai yng nghefn gwlad drwy gynllun galluogi lleol. Sefydlwyd partneriaeth gyda Chartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyllido a chefnogi'r rhwydwaith estynedig a fydd yn adnodd cynhwysfawr ledled Cymru.

Mae ymgynghoriad arfaethedig ar y cynnyrch Cymorth Prynu diwygiedig yn anelu at annog darpariaeth o dai mwy fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Gan ddibynnu ar y gymhareb o bris tŷ i incwm, gall trefniant rhannu ecwiti olygu y gall perchennog tŷ forgeisio hyd at 50% o bris prynu'r eiddo, gyda'r Gymdeithas Dai yn cadw'r gweddill fel rhan o'r ecwiti yn yr eiddo. Gallai hynny olygu y bydd yr eiddo yn fwy fforddiadwy i'r perchennog.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi y bydd cyllid pellach i gefnogi *Land for People* sy'n cynghori ynghylch Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol. Gellir darparu'r rhain ar safleoedd eithriedig gwledig a byddent yn ddewis arall yn hytrach na datblygiadau mwy arferol y cymdeithasau tai. Cyhoeddir llawlyfr cyn bob hir.

Goblygiadau ariannol
Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu i lawr o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9: Er bod y Pwyllgor yn croesawu ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar dai mewn ardaloedd gwledig[1], mae'n pryderu nad yw delio â diffyg tai fforddiadwy yng Nghymru'n cael ei ystyried fel mater o frys ar hyn o bryd. Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad uchod, mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i:

- **ddatblygu cynlluniau gweithwyr allweddol mewn ardaloedd gwledig**
- **annog defnyddio mwy ar gynlluniau rhannu ecwiti**
- **ymdrechu i chwalu rhwystrau er mwyn galluogi pobl leol i brynu cartrefi yn eu hardaloedd lleol.**
- **cynyddu cyflenwad tai fforddiadwy y tu hwnt i'r 6,500 o dai yr ymrwymwyd iddynt yn nogfen *Cymru'n Un*.**

Ymateb: Derbyn gyda rhai diwygiadau

Byddai'n rhaid gwneud y diwygiad a ganlyn: **mae prinder tai fforddiadwy yng Nghymru yn derbyn sylw brys ac mae nifer o gynlluniau ar y gweill, ledled Cymru gan gynnwys y rhai a dargedir yn benodol at ardaloedd gwledig,** fel y cynllun Datblygu Tai Gwledig sy'n darparu cyllid i ymestyn y gyfres o 'Swyddogion Galluogi Tai Gwledig', sydd eisoes yn llwyddiannus, i ffurfio adnodd cynhwysfawr ledled Cymru.

Gweithwyr Allweddol

Er bod 'gweithwyr allweddol' yn Lloegr, fel arfer, yn cynnwys swyddogion yr heddlu, diffoddwyr tân, athrawon a nyrsys, gall y rhan fwyaf o'r gweithwyr proffesiynol hyn, yng Nghymru, ganfod cartrefi sydd o fewn cyrraedd eu lefelau incwm. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i sicrhau y bydd gweithwyr allweddol eraill, gan gynnwys cynorthwywyr dosbarth, gweithwyr gofal a gweithwyr cymorth i'r gwasanaethau cyhoeddus mewn lifrai, yn cael eu helpu i brynu eu cartref cyntaf. Bydd meini prawf ar gyfer 'gweithiwr allweddol' yn y cyd-destun hwn yn ymddangos yn ein hymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r polisi Cymorth Prynu.

[1] Llywodraeth Cynulliad Cymru Newidiadau i'r Polisi Cynllunio i Gefnogi Datblygiad Cynaliadwy mewn Ardaloedd Gwledig - Diwallu Anghenion Tai, Gorffennaf 2008

Cynlluniau Rhannu Ecwiti

Yn *The Review of Low Cost Home Ownership Policies in Wales* (2006) a gynhaliwyd gan Michael Jones o Brifysgol Caergrawnt, tanlinellwyd nifer o wendidau yng ngweithrediad cynllun rhannu ecwiti Cymorth Prynu ac awgrymodd nifer o feysydd polisi i'w hystyried. Mewn ymateb, rhoddwyd rhybudd o *Adolygiad o'r Cynllun Cymorth Prynu yng Nghymru,* gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Troseddol ac Adfywio ar y pryd, ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Ebrill 2007.

Yng ngoleuni hyn, ni chyhoeddwyd dyraniadau penodol cynllun Cymorth Prynu 'DIY' ar gyfer Rhaglenni Grantiau Tai Cymdeithasol 2008-2009, 2009-2010, er y gellir cynnig pob tŷ newydd a chyfredol a ddatblygwyd gan gymdeithasau tai gyda'r Grant hwn ar delerau Cymorth Prynu i ymgeiswyr cymwys.

Yng ngoleuni hyn, ac o ystyried y gwymp yn y farchnad dai, mae swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried y dull o weithredu Cymorth Prynu. Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi gofyn am bapur ymgynghori ar gyfer yr hydref, unwaith y bydd y syniadau hyn wedi'u datblygu ymhellach. Pan fyddant ar eu ffurf derfynol, bydd yn ystyried cynigion ar gyfer newid a gyflwynir ac yn ystyried y lefelau cyllido ar gyfer Cymorth Prynu. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cydnabod yr angen am fuddsoddi ychwanegol mewn tai fforddiadwy a chafwyd cynnydd o £30m yn y Grant Tai Cymdeithasol dros gyfnod y weinyddiaeth bresennol o bedair blynedd, er mwyn adlewyrchu'r flaenoriaeth yr ydym yn ei rhoi i Dai.

Chwalu'r rhwystrau

Cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y byddid yn sefydlu Cynllun Datblygu Tai Gwledig a fydd yn darparu cyllid i ymestyn y rhwydwaith o swyddi Swyddogion Galluogi Tai Gwledig ledled Cymru. Mae'r Swyddogion hyn yn gweithio gyda chymunedau lleol i hwyluso'r broses o ryddhau safleoedd eithriedig gwledig er mwyn gallu adeiladu cartrefi fforddiadwy i bobl leol. Bydd yr ymgynghori arfaethedig ynghylch Cymorth Prynu yn annog darpariaeth o dai mwy fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig. Gan ddibynnu ar y gymhareb rhwng pris y tŷ a'r incwm, gall trefniant rhannu ecwiti olygu y gall perchennog tŷ gael morgais o hyd 50% o bris yr eiddo, gyda'r Gymdeithas Dai yn cadw'r gweddill fel cyfran o'r ecwiti yn yr eiddo. Gallai hynny olygu y bydd yr eiddo yn fwy fforddiadwy i'r perchennog.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi y bydd cyllid pellach i gefnogi *Land for People* sy'n cynghori ac yn cefnogi Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol y gellir eu darparu ar safleoedd eithriedig gwledig. Byddai'r rhain yn ddewis arall yn hytrach na datblygiadau mwy arferol y cymdeithasau tai.

Cynyddu'r cyflenwad o Dai fforddiadwy

Mae'r ymrwymiad i ddarparu 6,500 o gartrefi dros bedair blynedd yn isafswm ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn anelu at ddarparu mwy na hynny os yn bosibl. Fodd bynnag, gallai'r Wasgfa Gredyd a'r arafwch yn y farchnad dai effeithio ar y ddarpariaeth o gartrefi drwy'r sector preifat. Mae nifer o gynlluniau ar y gweill i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ac mae'r rhain yn cynnwys:

Grant Tai Cymdeithasol

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau cynnydd yng nghyllideb y Grant Tai Cymdeithasol i £107.4 m yn 2008/9 ac am y ddwy flynedd i ddod. Mae hyn yn cymharu â ffigur o £59.4m yn 2004/2005. Defnyddir yr arian hwn i helpu cymdeithasau tai i ddatblygu tai fforddiadwy newydd, yn bennaf i'w rhentu, er y gellir cynnig i'r darpar denant, ac unrhyw denantiaid at y dyfodol, dan y polisi daliadaeth niwtral, gyfle i brynu'r eiddo gyda chymorth benthyciad ecwiti dan gynllun Cymorth Prynu.

Gwneud y defnydd gorau o'r System Gynllunio

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi bod yn edrych ar y system gynllunio a'r sector preifat i ddarparu cartrefi fforddiadwy angenrheidiol, yn ychwanegol at y rôl draddodiadol a chwaraeir gan gymdeithasau tai.

Mae'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad o Brifysgol Sheffield yn dangos bod yn rhaid rhoi pwyslais ar wella darpariaeth awdurdodau lleol o dai fforddiadwy.

Lansiwyd canllawiau ymarfer i awdurdodau lleol ar ddrafftio a defnyddio cymalau tai fforddiadwy mewn cytundebau adran 106 ym mis Gorffennaf 2008.

Datganiadau Cyflenwi Tai Fforddiadwy

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch canllawiau drafft i awdurdodau lleol i gynhyrchu Datganiadau Cyflenwi Tai Fforddiadwy. Bydd y datganiadau hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau yn *Cymru'n Un.* Bydd y canllawiau yn gofyn am osod targedau clir i gyflenwi tai fforddiadwy a strategaeth ymarferol i'w cyrraedd. Bydd angen i'r Datganiadau hefyd ystyried mathau a maint y gwahanol anghenion sydd i'w diwallu, gan gynnwys y sector tai rhent cymdeithasol, y sector tai canolraddol a sector tai y farchnad agored i alluogi teuluoedd i ddewis deiliadaeth sy'n diwallu eu hanghenion tai penodol hwy yn y ffordd orau bosib.

Mae Datganiadau Cyflenwi Tai Fforddiadwy yn fesur un pwrpas a fydd yn darparu cyswllt trosiannol hanfodol rhwng y cynlluniau datblygu cyfredol (ond sydd weithiau angen eu diweddaru), strategaethau tai, a Chynlluniau Datblygu Lleol at y dyfodol, na fydd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu mabwysiadu tan 2011 neu'n ddiweddarach. Byddant yn sicrhau y caiff polisïau cynllunio tai

fforddiadwy cenedlaethol diwygiedig eu gweithredu'n lleol mewn modd mwy amserol, gan helpu i sicrhau y caiff tai mwy fforddiadwy eu darparu yn y tymor byr.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi darparu cynlluniau ariannol, trwy ddefnyddio'r Grant Rheoli Tai Cymdeithasol, i'w cynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu'r cynlluniau.

Tir mewn perchenogaeth gyhoeddus

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau gweld tir sydd mewn perchenogaeth gyhoeddus yn cael ei ryddhau'n haws er mwyn datblygu tai fforddiadwy. Mae Protocol Tir Llywodraeth y Cynulliad, a gyhoeddwyd gan Brif Weinidog Cymru ar ddiwedd y weinyddiaeth ddiwethaf, wedi symud yr ymrwymiad yn ei flaen ac mae gweithgor aml-adrannol yn cyfarfod yn rheolaidd, erbyn hyn, i ystyried sut i gynyddu potensial safleoedd a thir dros ben a gaiff eu dwyn ymlaen i'w datblygu gan yr Adran Economi a Thrafnidiaeth.

Yr Hawl i Brynu

Mae'r Hawl i Brynu a'r Hawl i Gaffael wedi arwain at ostyngiad sylweddol (o dros 45%) yn nifer y tai cymdeithasol i'w rhentu yng Nghymru. Mae hyn wedi taro rhai ardaloedd gwledig yn galed a dyna un o'r rhesymau pam y gwnaed ymrwymiad i chwilio am gymhwysedd deddfwriaethol i atal yr Hawl i Brynu mewn ardaloedd sydd dan bwysau o ran tai.

Grantiau i Brynwyr am y Tro Cyntaf

Mae camau breision yn cael eu cymryd tuag at gyflawni ymrwymiad *Cymru'n Un* i ddarparu grantiau i brynwyr am y tro cyntaf. Bydd cynllun peilot sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnig grantiau o hyd at £5,000 i rai sy'n prynu am y tro cyntaf mewn ardaloedd adnewyddu datganedig lle bo cymhareb rhwng pris tŷ ac incwm yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol i Gymru. Byddai'r grant ar gyfer cyflawni gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dyrannu £500,000 i gefnogi'r grantiau hyn ar gyfer 2008-2009.

Y fframwaith rheoleiddio a gweithredu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

Comisiynwyd Sue Essex gan Lywodraeth y Cynulliad i arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen a fyddai'n adolygu'r fframwaith rheoleiddio a gweithredu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac asesu sut y gellid ei wella er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni nodau '*Cymru'n Un*' o ran cartrefi fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r adroddiad terfynol wedi dod i law, erbyn hyn, ac yn cael ei ystyried.

Goblygiadau ariannol –

Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu i lawr o gyllidebau'r rhaglenni presennol neu, yn achos datblygu polisi, bydd yn destun adroddiadau penodol ar wahân.

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post yn cynnwys darpariaeth gwasanaethau ATM rhad ac am ddim mewn ardaloedd gwledig, fel rhan o ystod o wasanaethau amrywiol y mae Swyddfeydd Post yn eu darparu.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Ar 6 Awst 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddid yn cynnal ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos ynghylch cwmpas a meini prawf cymhwyster y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post newydd. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref. Y bwriad yw bod y gronfa'n cefnogi cynigion busnes a fyddai, yn ôl yr isbostfeistri/isbostfeistresi eu hunain, yn gwneud gwahaniaeth i hyfywedd eu busnes. Gallai peiriannau ATM ddod fel rhan o gwmpas arfaethedig y gronfa arfaethedig, ond nid ydym yn dymuno rhagdybio canlyniad yr ymgynghoriad na rhagnodi ar gyfer beth yn union y'i defnyddir.

O safbwynt gwasanaethau ATM di-dâl, mae gwaith eisoes ar y gweill. Yn dilyn adroddiad Pwyllgor y Trysorlys ym mis Mawrth 2005 ar daliadau a godir gan beiriannau ATM, estynnodd y Trysorlys wahoddiad i Gadeirydd Pwyllgor Dethol y Trysorlys, John McFall AS, i gadeirio Gweithgor ar beiriannau ATM i weithredu ar y prif faterion. Cyhoeddodd y Gweithgor, a oedd yn cynnwys banciau, gweithredwyr peiriannau ATM annibynnol a grwpiau o ddefnyddwyr, eu hadroddiad ar 13eg Rhagfyr 2006.

Cyhoeddodd y Gweithgor gytundeb i ddarparu oddeutu 600 o beiriannau arian parod di-dâl newydd ledled 1,707 o ardaloedd incwm isel a dargedwyd, a ddynodwyd fel ardaloedd heb beiriannau o'r fath o fewn cyrraedd rhwydd iddynt, a hynny ar sail y 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. I gyflawni hyn, cyflwynwyd cymhelliant ariannol yn seiliedig ar y farchnad—sef y "premiwm cynhwysiant ariannol"— i annog gweithredwyr ATM i roi neu gadw peiriannau ATM di-dâl mewn ardaloedd difreintiedig lle byddai nifer ddisgwyliedig y trafodion yn isel. Cytunodd y Gweithgor hefyd i weithredu gwelliannau o ran tryloywder y peiriannau ATM sy'n codi tâl trwy newid y wybodaeth sy'n ymddangos ar y sgrîn a'r arwyddion allanol. Cafwyd cyhoeddiad ar y cyd ynghylch y cynnydd ar 10 Mehefin gan Ms Ussher, a John McFall, gan ddatgan fod dros filiwn o bobl yn elwa o'r 419 o beiriannau arian parod newydd, nad ydynt yn codi tâl, a osodwyd mewn ardaloedd incwm-isel ledled y DU yn y 18 mis diwethaf.

O'r 198 o ardaloedd yng Nghymru a nodwyd fel rhai ag angen y peiriannau ATM ynddynt, mae anghenion 69 ohonynt wedi'u diwallu a gwnaed trefniadau i osod peiriannau er budd 50 o ardaloedd ychwanegol. Dylid nodi hefyd y gallai un peiriant ATM ddiwallu anghenion mwy nag un gymuned, gan ddibynnu ar leoliad y cymunedau hynny (byddai lleoli un peiriant ATM mewn man rhwng dwy gymuned yn diwallu anghenion y ddwy, gan ddibynnu ar eu maint). Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Ysgrifennydd Economaidd y Trysorlys, Kitty Ussher AS, yn mynegi pryder ynghylch sut y dewiswyd yr ardaloedd hyn yng Nghymru, ac mae adnoddau mapio wedi'u dyfeisio i gefnogi achos Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gysylltu â swyddogion cyfatebol yn Nhrysorlys EM a LINK i sicrhau y rhoddir cydnabyddiaeth barhaus i anghenion Cymru.

Mae gwybodaeth ynghylch yr ardaloedd targed sy'n weddill i'w chael ar wefan LINK ac mae'n caniatáu awgrymiadau ynghylch y man gorau o fewn y gymuned leol i roi peiriant ATM. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i ysgrifennu at bob AC i roi gwybod iddynt am y cyfle hwn a phwyso arnynt i ddefnyddio'u dylanwad i gyfeirio cynrychiolwyr o'r gymuned i ymweld â thudalen berthnasol gwefan LINK ar www.link.co.uk/atm/access_to_cash.

Ymhellach mae Banc Iwerddon yn gweithio gyda Swyddfa'r Post Cyf i osod 4000 peiriant ATM o'r fath ledled y rhwydwaith. Mae Ms Ussher wedi cadarnhau y bydd y ddwy raglen ar wahân yn ategu'i gilydd ac yn osgoi dyblygu.

Goblygiadau Ariannol – Caiff unrhyw gostau ar gyfer y Gronfa Datblygu Swyddfeydd Post eu tynnu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 11: Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau y bydd y Cynllun Iechyd Gwledig sydd ar ddod yn edrych ar fodd hyblyg o gyflenwi gwasanaethau i'r unigolion a'r cymunedau hynny sy'n bell o ddarpariaeth iechyd y brif ffrwd.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r deunydd y mae'r adroddiad yn ei ddarparu yn y maes hwn ac yn sicrhau y rhoddir sylw i'r materion hyn yn y Cynllun Iechyd Gwledig.

Goblygiadau Ariannol
Ni allwn wneud sylwadau ar yr adeg hon gan nad yw'r adroddiad wedi'i gwblhau eto.

Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr anfanteision y mae diffyg darpariaeth band eang yn eu hachosi, ac mae'n argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhoi cynigion ar waith yn gynharach i chwalu unrhyw rwystrau rhag ei ddarparu mewn ardaloedd gwledig, fel mater o frys.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod bod mynediad cyffredinol at fand eang diogel a fforddiadwy yn bwysig i fusnesau a dinasyddion ledled Cymru. Mae'n bwysig bod y seilwaith telegyfathrebu yng Nghymru yn gallu ymdopi â'r her hon a, thrwy hynny, yn gallu helpu i adeiladu economi ffyniannus a llewyrchus yng Nghymru. I'r diben hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio, ac wedi bod yn gweithio ers tro, gyda'r diwydiant telegyfathrebu ac Ofcom, y corff rheoleiddio cyfathrebu, i rannu gwybodaeth ynghylch materion seilwaith cyfathrebu, deall y rhwystrau rhag buddsoddi, gan gynnwys ystyriaethau rheoleiddiol ac economaidd a goleuo'r broses o lunio polisïau at y dyfodol yn y maes hwn.

Ar 9fed Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru, hefyd, broses gaffael ledled Cymru i ganfod consortiwm neu ddarparwr telegyfathrebu i roi sylw i'r mannau hynny lle nad oes band eang ynddynt eto. Trwy wneud hyn, ceir dull cydlynus o ddynodi, blaenoriaethu a delio gyda'r anawsterau hyn, lle bo hynny'n ddichonadwy.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Dyrannwyd cyllid eisoes ar gyfer y broses gaffael y cyfeiriwyd ati uchod o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n annog datblygu mentrau cymdeithasol fel modd o ddarparu cyfleusterau y mae'r gymuned yn berchen arnynt mewn ardaloedd gwledig.

Ymateb: Derbyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i weithredu ar ganfyddiadau adolygiad Quirk yng Nghymru, a edrychai ar Drosglwyddo Asedau i Gymunedau. Sylweddolwn nad optimeiddio'r defnydd o asedau cyhoeddus yw prif amcan Trosglwyddo Asedau - grymuso'r gymuned sydd bwysicach na dim arall.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i rymuso cymunedau, fel y gwelwyd yn Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, a thrwy annog trosglwyddo asedau a chefnogi cyfleusterau sydd ym mherchenogaeth cymunedau, ceir cyfraniad helaeth at y modd y gallwn gyflawni hyn.

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb i edrych ar sut y gallem weithredu rhaglen trosglwyddo asedau yng Nghymru. Caiff y gwaith hwn ei gwblhau ym mis Medi a bydd y Gymdeithas yn adrodd yn ôl ar nifer o feysydd. Byddant yn gwneud argymhellion ynghylch hyfforddiant angenrheidiol i'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, y naill a'r llall, o safbwynt dynodi asedau, eu trosglwyddo a'u rheoli. Byddant yn dynodi arfer dda a'r gwersi a ddysgwyd o'r adeg pan na fu trosglwyddo asedau'n llwyddiannus. A byddant yn edrych ar y dangosyddion y gallem eu sefydlu a sut y gallwn fesur ein cynnydd o ran rhaglen trosglwyddo asedau.

Goblygiadau Ariannol - Y bwriad yw asesu argymhellion Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru yn yr hydref ac yna edrych i weld a fyddai modd creu Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol at ddefnydd mudiadau i gael at grantiau y gellid eu defnyddio i sicrhau bod asedau yn ateb y gofyn. Byddwn eisiau cynnal archwiliad i weld a ddylai'r gronfa gynnig grantiau, benthyciadau neu gyfuniad o'r ddau; sut y mae'n cysylltu â benthycwyr masnachol a phartneriaid eraill fel y Gronfa Loteri Fawr.

Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod ymrwymiad *Cymru'n Un* Llywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu rhaglenni gwrthdlodi presennol yn cynnwys gwerthuso'u cynnydd a'u heffaith ar fywydau pobl a chymunedau yn y Gymru wledig.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddi, er enghraifft, fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gofodol, datblygu Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a drwy Arsyllfa Wledig Cymru. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol hefyd yn gweithio ar nifer o brosiectau a fydd yn darparu data i gefnogi'r argymhelliad hwn – gweler ymateb i argymhelliad 22.

Goblygiadau Ariannol:

Dim. Mae'r costau eisoes yn cael eu talu gan y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Costau Rhedeg Adrannol a/neu gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 15: Hoffai'r Pwyllgor dderbyn adroddiad blynyddol ar gynnydd mentrau gwrthdlodi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y Gymru wledig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hapus i ddarparu tystiolaeth blynyddol i'r Pwyllgor ar ei mentrau gwrthdlodi yn y Gymru wledig.

Goblygiadau Ariannol
Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu tynnu i lawr o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan y Comisiwn dros Gymunedau Gwledig yn Lloegr swyddogaeth statudol i fonitro ac adrodd ar effeithioldeb polisïau yn Lloegr o ran diwallu anghenion gwledig[2]. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda'r Comisiwn dros Gymunedau Gwledig yn Lloegr i ddysgu o arferion prawfesur polisïau yn effeithiol o safbwynt gwledig mewn mannau eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried yr angen am ddeddfwriaeth i sicrhau bod polisïau yng Nghymru'n cael eu prawfesur o safbwynt anghenion gwledig.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn meddu ar ddull o brawfesur o safbwynt anghenion gwledig a ddarperir gan yr Uned Polisi Gwledig o fewn yr Adran Materion Gwledig. Mae'r Uned hon yn darparu gwasanaeth cefnogi a chynghori yng nghyswllt prawfesur o safbwynt anghenion gwledig i swyddogion polisi a rhaglenni eraill i'w helpu i ddeall yr ystyriaethau gwledig penodol sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith. O safbwynt deddfwriaeth, mae prawfesur o safbwynt gwledig yn rhan orfodol o'r broses Porth i Bolisïau sy'n golygu bod yn rhaid asesu pob polisi a rhaglen allweddol yn ffurfiol yn erbyn ystyriaethau natur wledig fel rhan o'r gwaith o'u datblygu.

[2] Mae *Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006* yn nodi mai un o swyddogaethau statudol y Comisiwn dros Gymunedau Gwledig yw monitro ac adrodd ar y ffordd y mae polisïau pobl berthnasol yn cael eu datblygu, eu mabwysiadu a'u rhoi ar waith (trwy eu prawfesur o safbwynt anghenion gwledig neu fel arall) a'r graddau y mae'r polisïau hynny'n diwallu anghenion gwledig".

Goblygiadau Ariannol
Dim. Mae'r costau o gyflawni prawfesur o safbwynt anghenion gwledig eisoes yn cael eu talu o'r ddarpariaeth DRC bresennol a/neu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Argymhelliad 17: Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o dryloywder a monitro prosesau prawfesur polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt anghenion gwledig trwy werthuso allanol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn adrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor ar broses prawfesur polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt anghenion gwledig. Dylai Arsyllfa Wledig Cymru chwarae rhan mewn gwerthuso'r broses prawfesur polisïau o safbwynt anghenion gwledig.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'n fwriad eisoes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar weithgarwch prawfesur o safbwynt anghenion gwledig a bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r Pwyllgor fel mater o drefn. Nid oes gwrthwynebiad i'r cynnig y dylid gwerthuso ein gweithgarwch ond mae'n rhaid rhoi ystyriaeth fanwl i addasrwydd Arsyllfa Wledig Cymru i ymgymryd â'r swyddogaeth honno.

Goblygiadau Ariannol
Dim. Mae'r costau eisoes yn cael eu talu o'r ddarpariaeth DRC bresennol a/neu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Argymhelliad 18: Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cynulliad Cymru'n hwyluso mwy o drafodaeth rhwng awdurdodau lleol, asiantaethau a'r sector gwirfoddol er mwyn datblygu dulliau arloesol o fynd i'r afael â phroblemau ardaloedd gwledig. Byddai'r Pwyllgor yn cefnogi'r syniad o ddigwyddiad blynyddol â'r nod o annog trafodaeth a rhannu arfer gorau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn defnyddio amrediad o fforymau i weithio gydag awdurdodau lleol, asiantaethau a'r trydydd sector, yn unigol ac ar y cyd, gan gynnwys grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. Yr ydym yn ymrwymedig, fodd bynnag, i fod yn agored ac yn gynhwysol a chytunwyd y gallai digwyddiad blynyddol, sy'n dwyn ynghyd arweinwyr ac ymarferwyr polisi, gynorthwyo gyda'r gwaith o ffurfio dulliau newydd o weithredu a rhannu arfer dda. Cytunwyd y bydd swyddogion yn yr Adran Materion Gwledig yn gweithio gyda swyddogion sy'n arwain ar y

Cynllun Gofodol i drefnu digwyddiad yn ystod 2009 tra'n parhau i ddefnyddio'r fforymau presennol.

Goblygiadau Ariannol
Dim. Mae'r costau eisoes yn cael eu talu o'r ddarpariaeth DRC bresennol a/neu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.

Argymhelliad 19: Mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu diffiniad ar frys o ystyr y term "ardaloedd gwledig anghysbell", fel y'i defnyddir yn nogfen *Cymru'n Un*, a sut y bydd hyn yn dylanwadu ar ddatblygiad polisïau.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig sy'n gweithredu ar yr ymrwymiad yng nghyswllt 'ardaloedd gwledig anghysbell'. Cytunwyd i ddull 3-cham o weithredu. Fe'i cynlluniwyd i roi manylrwydd i'r cydsyniad, gan ddarparu dull tryloyw ac amddiffynadwy o ddewis ardaloedd a rhoi ystyriaeth i'r gwahanol fathau o "gefn gwlad anghysbell"; a helpu i ddynodi anghenion penodol ardaloedd gwledig anghysbell drwy gymharu data ar gyfer ardal yn erbyn y gwasanaethau sydd ar gael. Bydd hefyd yn hwyluso cydweithio clòs ag awdurdodau lleol, y trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddynodi anghenion a datrysiadau posibl.

Yr oedd Cam 1 yn ymarferiad ystadegol ar sail Cymru-gyfan ar lefel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is er mwyn dosbarthu Cymru yn ôl yr amser a gymerai i yrru i ganol y 'dref fawr' agosaf. At ddibenion yr ymarferiad, cymerwyd bod 'tref fawr' yn golygu un o 10,000 o bobl fan lleiaf. Gwelir canlyniadau'r Cam hwn yn y map a atodir.

Mae Cam 2 ar y gweill ar hyn o bryd ac mae'n mynd â'r gwaith hwn i'r lefel leol er mwyn dilysu'r wybodaeth a gasglwyd hyd yma a'i datblygu trwy ddulliau meintiol ac ansoddol a bydd yn cynnwys rhoi ystyriaeth i'r seilwaith trafnidiaeth. Cyflawnir hyn trwy gynnal 4 o astudiaethau lleol ledled Cymru. Mae'r union fethodoleg wrthi'n cael ei datblygu a bydd swyddogion yn gweithio'n glòs gyda'r awdurdodau lleol perthnasol, partneriaid y trydydd sector a rhanddeiliaid lleol yn hyn o beth. Ni chafwyd penderfyniad terfynol eto ynghylch yr union ardaloedd sydd i'w cynnwys yn yr astudiaethau ond cynigir ar hyn o bryd, yn amodol ar drafodaethau gyda rhanddeiliaid lleol, eu bod yn edrych ar orllewin Pen Llŷn, Meirionnydd, y ffin rhwng Powys a Lloegr, a ffin Gogledd Sir Benfro/Gogledd Sir Gaerfyrddin. Cynhelir trafodaethau cychwynnol ynghylch Cam 2 gyda phartneriaid allweddol ddechrau mis Medi gyda'r astudiaethau ardal yn cael eu cynnal yn ystod yr Hydref.

Caiff union natur Cam 3 ei bennu ar sail canlyniadau Cam 2 ond bydd yn cynnwys dadansoddiad manwl o ganfyddiadau Cam 2 i ddynodi ystyriaethau

cyffredin, a dosbarthu'r canfyddiadau i randdeiliaid ym mhob cwr o Gymru i'w trafod yn ehangach.

Yn amlwg, ni fydd modd pennu i ba raddau y gallai'r gwaith hwn ddylanwadu ar y broses o ddatblygu polisïau nes bod Cam 3 wedi'i gwblhau.

Goblygiadau Ariannol
Dim ar hyn o bryd. Mae costau ymgymryd â'r gwaith a ddisgrifir uchod yn cael eu talu o'r ddarpariaeth DRC bresennol a/neu o gyllidebau rhaglenni cyfredol. Bydd y costau a allai godi yn sgil rhoi sylw i faterion a ddynodir o ganlyniad i'r gwaith yn fater i'w ystyried gan yr Adran(nau) sy'n gyfrifol am yr ardal benodol dan sylw.

Argymhelliad 20: Er bod y Pwyllgor yn croesawu cyfraniad *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru* at ddynodi crynodiadau o amddifadedd, mae'n annog Llywodraeth y Cynulliad i ystyried tystiolaeth ychwanegol wrth lunio polisïau gwrthdlodi, fel gwaith Arsyllfa Wledig Cymru.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn hapus i ystyried bob tystiolaeth a ffyrdd newydd o feddwl er mwyn mynd i'r afael â thlodi. Fel y nodwyd yn yr ymateb i Argymhelliad 22, mae Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol yn bwrw ymlaen â nifer o brosiectau a byddant oll yn darparu data defnyddiol. Yn ogystal, gwnaethpwyd llawer o waith fel rhan o broses y Cynllun Gofodol a chan Arsyllfa Wledig Cymru ac mae gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegol data perthnasol yn ogystal.

Goblygiadau Ariannol:

Dim. Mae'r costau eisoes yn cael eu talu gan y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y Costau Rhedeg Adrannol a/neu gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 21: Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gryf i archwilio, gyda Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sut y gellid adlewyrchu materion natur wledig yn well yn y Setliad Llywodraeth Leol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae'n bwysig fod y setliad llywodraeth leol yn adlewyrchu'n llawn y ffactorau sy'n rheoli gwariant llywodraeth leol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y ffordd orau o ystyried

barn ei Fforwm Gwledig yn rhaglen waith yr Is-grŵp Dosbarthu. Mae'r grŵp hwn eisoes wedi ymrwymo i adolygu dangosyddion y natur wledig a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y fformiwlâu cyllid.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Mae newidiadau i'r fformiwla cyllido yn creu patrwm o rai sy'n ennill ac yn colli ar draws y 22 awdurdod unedol.

Argymhelliad 22: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol i gynllunio darpariaeth hirdymor gwasanaethau yn y dyfodol. Dylai hyn gynnwys dadansoddi tueddiadau demograffig ac economaidd-gymdeithasol i helpu i ddeall sut mae cymunedau gwledig yn newid, a'r gwasanaethau y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol.

Ymateb: Gwrthod

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddi, er enghraifft, fel rhan o'r gwaith ar y Cynllun Gofodol, datblygu Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a drwy Arsyllfa Wledig Cymru. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol hefyd yn gweithio ar nifer o brosiectau a fydd yn darparu data i gefnogi'r argymhelliad hwn, gan gynnwys: -

- cynigion ar gyfer arolwg o ddinasyddion cenedlaethol newydd a fydd, os caiff ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2008, yn darparu data ar amrediad o faterion, gan gynnwys y galw am wasanaethau cyhoeddus, a lefelau bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau hynny, y gellir eu dadansoddi yn achos ardaloedd gwledig ac fel arall
- adolygiad o'r ymchwil sy'n bodoli eisoes a'r ffynonellau data ar newid demograffig yng Nghymru, gan gynnwys amlygrwydd a symudiadau grwpiau allweddol fel cymunedau ethnig lleiafrifol, mewnfudwyr economaidd, y rhai sydd wedi ymddeol, y rhai sydd wedi symud yn bell o'r tu allan i Gymru a theuluoedd ifanc. Yna, gwneir penderfyniad ynghylch ehangder unrhyw ymchwil sylfaenol y bydd ei hangen yn ystod 2009/10.

Goblygiadau Ariannol:

Dim. Mae'r costau eisoes yn cael eu talu o'r ddarpariaeth DRC bresennol a/neu o gyllidebau rhaglenni cyfredol.